



Diogelwch Gwylwyr Lefel 2 (Rhan-Amser) Dechrau Ionawr

Trwy gwblhau'r cymhwyster hwn, bydd dysgwyr yn bodloni gofynion y diwydiant i gyflawni rolau o fewn stiwardio a diogelwch gwylwyr.

Pwrpas y cymhwyster hwn yw cadarnhau cymhwysedd galwedigaethol a darparu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o Ddiogelwch Gwylwyr i ddysgwyr. Maent wedi'u mapio i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Skills Active (NOS) ar gyfer Diogelwch Gwylwyr 2019.

Mae cyflogwyr diogelwch gwylwyr yn pwysleisio'n gyson y pwysigrwydd a roddir ar ddysgwyr yn dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth trwy asesiadau sy'n seiliedig ar gymhwysedd.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i adlewyrchu'r gofynion hyn, gan asesu perfformiad dysgwyr yn y swydd.

Gofynion Mynediad

Rhaid i ddysgwyr fod yn 16+ oed.

Cyn y gellir ardystio dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid iddynt gwblhau:

- Cwrs hyfforddi cynnal bywyd sylfaenol sy'n cynnwys: CPR, safle adfer, defnyddio diffibriliwr a sut i reoli gwaedu.
- eDdysgu Ymwybyddiaeth Gweithredu Gwrthderfysgaeth (ACT)

Rhagolygon Gyrfa

Mae cwblhau'r cymhwyster hwn yn rhoi mynediad i swyddi stiwardio, cynorthwydd, aelod o'r criw a thywysydd gan gynnwys ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth, gwyliau a charnifalau.

Modiwlau'r cwrs

Mae modiwlau'r cwrs yn cynnwys:

- Paratoi ar gyfer digwyddiadau gwylwyr
- Cynorthwyo gyda symud gwylwyr ac ymdrin â materion torf mewn digwyddiadau
- Helpu i reoli a datrys gwrthdaro
- Delio â digwyddiadau mewn digwyddiadau gwylwyr
- Cefnogi gwaith eich tîm a'ch sefydliad



GRŴP COLLEGAU **NPTC** GROUP OF COLLEGES

Datblygu Busnes
Business Development



**Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success**

Aseiad

Portffolio o dystiolaeth Arddangosiad ymarferol

DULL ASTUDIO

WP

LLEOLIAD

HYD Y CWRS

1-2Y

business@nptcgroup.ac.uk | www.nptcgroup.ac.uk/business

 [nptc_business](https://twitter.com/nptc_business)

 [nptcbusiness](https://www.facebook.com/nptcbusiness)

 [business-nptcgroup](https://www.linkedin.com/company/business-nptcgroup)